YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLV. EBRILL, 1945. RHIF 4.

Nathan Ddoeth.

Cyflwynir i'r darllenwyr ieuanc.—GOLYGYDD.

DAU gant chwe deg a chwech o flynyddoedd yn ôl printiwyd drama. Gwir mai yn iaith ein gelynion ni heddiw yr ymddangosodd y ddrama honno gyntaf. Ei theitl mewn Cymraeg fyddai "Nathan Ddoeth." Y dramodydd oedd dyn o'r enw Lessing, ac yr oedd yn ddyn dysgedig fel diwinydd a llenor.

Y pryd hynny yr oedd y bobl yn benboeth iawn dros eu daliadau crefyddol. Erlidiai'r sectau ei gilydd yn ddidrugaredd. Yn enw crefydd gwneid llawer o bethau a fyddai'n dwyn gwarth ar enw crefydd. Dyma'r amser pryd yr oedd ein cyndeidiau ni yng Nghymru yn gorfod addoli mewn ogofeydd. A wyddoch chwi am hanes Cwm Hwplyn gerllaw Pencader? Pe daliai gweision y llywodraeth ein cyndeidiau yn addoli fel hyn, cosbid hwy yn drwm iawn. Nid yn unig y caent eu bwrw i'r carchar ond yn fynych y gorfodid hwy i werthu eu cartrefi er mwyn talu'r dirwyon—y *fines*.

Dyma'r adeg pryd yr ysgrifennwyd y ddrama y ceir ynddi'r stori hon am Nathan Ddoeth.

Darllenasoch yn eich llyfrau hanes yn yr ysgol am Ryfeloedd y Groes. Gwyddoch yn dda am hanes y brenin Rhisiart, y dyn hwnnw y dywedid am ei wroldeb fod ganddo galon llew. Carcharwyd ef mewn rhyw gastell, a rhoddwyd pris ar ei ryddid. Ddyfaled y bu ymchwil ei gerddor, Blondel, amdano. Canodd hoff ganeuon ei frenin o flaen castell ar ôl castell, ac o'r diwedd clywodd lais ei frenin oddifewn yn ei ateb. Un o Filwyr y Groes oedd y brenin Rhisiart. Amcan Rhyfeloedd y Groes oedd adfeddiannu lleoedd santaidd Palesteina o law'r Tyrciaid. Yn eu meddiant hwy yr adeg honno yr oedd y lleoedd hynny y mae'r Testament Newydd wedi eu gwneud yn enwog am byth. Dilynwyr y proffwyd Mwhamad oedd y Tyrciaid, a chredai'r Cristnogion mai eu dyledswydd ydoedd difetha pob disgybl i Fwhamad. Credai dilynwyr Mwhamad hefyd y byddent hwythau boddio Duw—wrth yr enw

Allah yr adwaenent ef—ond iddynt ladd cymaint ag a allent o ddilynwyr Crist.

Yn yr amser hwn, meddai'r stori sydd yn y ddrama, yr oedd dyn yn llywodraethu'r Tyrciaid, ac yr oedd ef yn ddyn doeth, yn ddoethach o bell ffordd na'i gydoeswyr. Saladin oedd ei enw, ac yr oedd yn awyddus i wybod pa un o'r dair crefydd oedd y grefydd wirioneddol. Dyma'r dair crefydd—y grefydd Gristnogol, y grefydd Iddewig, y grefydd Fwhamadanaidd. Er mwyn cael ateb, gofynnodd y cwestiwn i Iddew o'r enw Nathan, dyn a gyfrifid uwchlaw pobl eraill oherwydd ei ddoethineb. Dyn yn caru bod yn oddefol, yn *tolerant*, ydoedd Nathan, a'r peth pwysig yn ei olwg ef oedd gweithredoedd dynion, nid eu credo. (Wrth gwrs, fe gewch ddynion heddiw'n dweud, ond i chwi *gredu* rhyw syniadau am Iesu Grist, fe fyddwch yn gadwedig. Y peth a ddysgwn ni, yr Undodiaid yw, mai *byw* fel Iesu Grist sy'n ein gwneud ni wrth fodd ein Tad Nefol. Bod wrth fodd ein Tad Nefol, dyna'r unig ystyr sydd gennyf fi i'r gair "cadwedig."). Pa un o'r tair yw'r grefydd wirioneddol? Etyb Nathan Ddoeth gwestiwn Saladin trwy adrodd stori wrtho.

"Yr oedd dyn cyfoethog iawn unwaith, a gwisgai fodrwy ar ei fys. Dywedid fod rhyw rinwedd yn y fodrwy honno yn peri i Dduw a dyn garu'r sawl a'i gwisgai. Yn naturiol yr oedd gan y dyn cyfoethog hwnnw feddwl mawr am y fodrwy. Yr oedd bob amser yn ei gwisgo ar ei fys. Pan fu farw gadawodd y fodrwy i'w fab. Bu yntau farw, ac aeth y fodrwy i feddiant y mab a garai'n bennaf. Dyna fu hanes y fodrwy o genhedlaeth i genhedlaeth, a thrwy rinwedd y fodrwy yr oedd y mab a'i chafodd hi bob amser yn ben ar y teulu. Fe ddaeth adeg pryd yr oedd gan un tad dri o feibion, ac yr oedd pob un ohonynt yn gydradd yn ei serch a'i ofal. I ba un ohonynt y rhoddai ef y fodrwy? Oherwydd ei fod yn caru ei dri mab yn ddiwahaniaeth, penderfynodd wneud dwy fodrwy arall ym mhob dim yr un ffunud â'r fodrwy yr oedd y rhinwedd ynddi. Ar ei wely angau, y mae'n rhoi modrwy i bob un o'i feibion. Ar y dechrau credai pob un mai ei fodrwy ef oedd y fodrwy iawn. Ym mhen amser daethant i weld fod pob un ohonynt yn hawlio'r un peth am ei fodrwy ef, a dyna ddechrau cweryla. O'r diwedd aeth y tri mab at y Barnwr. Honnai pob un mai ef a dderbyniasai'r fodrwy iawn oddiwrth ei dad. Ni fynnai'r un ohonynt gredu fod ei dad wedi ei dwyllo. Yn hytrach beiai pob un ei frawd am ei ddichell.

Dywedodd y Barnwr wrthynt. 'Yr ydych yn dweud wrthyf fod yn y fodrwy iawn y rhinwedd i wneud ei pherchennog yn ddyn da yng ngolwg ei gyd-ddynion. Dyna'r peth sy'n mynd i benderfynu'r cwestiwn hwn hefyd. Y mae'n amlwg nad yw'r rhinwedd yma yn y modrwyau ffug. Pa un ohonoch chwi eich tri ydyw'r dyn gorau? Pa un ohonoch a hoffir yn fwyaf gan y lleill? Nid ydych yn ateb. Credaf eich bod chwi eich tri wedi eich twyllo. Yn ôl eich tyst-

iolaeth chwi y mae'r tair modrwy yn ffug. Wrth bob tebyg y mae'r fodrwy iawn wedi mynd ar goll. Ac er mwyn cuddio'r golled fe wnaeth eich tad y dair modrwy. Fel Barnwr dywedaf na allaf benderfynu o blaid yr un ohonoch. Ond os ydych yn barod i dderbyn cyngor ac nid dyfarniad y Barnwr, dywedaf hyn. Gan fod pob un ohonoch wedi cael modrwy, bydded iddo gredu mai'r fodrwy honno yw yr un iawn. Y mae'n bosibl na fynnai eich tad fod un, ac un yn unig, ohonoch yn meddu ar fanteision y fodrwy. Yn sicr yr oedd ef yn eich caru chwi yn gydradd. Ni fynnai wahaniaethu rhyngoch, a gwneud ffafryn o un. Bydded i bob un ohonoch yn awr ymdrechu bod yn ddyn da. Dangoswch yn eich bywyd ac yn eich gwaith fod y rhinwedd yn eich modrwy chwi. Byddwch yn bur, yn gyfiawn, yn drugarog. Rhodiwch bob amser yn ostyngedig gyda Duw. Ac os bydd i'r galluoedd sydd yn y fodrwyau eu dangos eu hunain ym mhlant eich plant, gofynnaf i chwi ym mhen mil o filoedd o flynyddoedd ddod eto i'r frawdle hon. Y pryd hynny y bydd dyn doethach na myfi yn eistedd yma. Ymaith a chwi yn awr.'

Deallodd Saladin ar unwaith feddwl Nathan. Cynrychioli'r dair crefydd yr oedd y tri mab. Nid oedd yr amser addas eto wedi dod i benderfynu'r cwestiwn—disgynyddion pa un o'r meibion a oedd wedi eu cyfiawnhau yng ngolwg y lleill trwy eu daioni i fod yn ben y teulu."

Gwerth Enaid yw Deugain Doler!

GWYDDOM yn awr beth ydyw'r pris sydd ar enaid dyn. Archesgob Pabyddol Winnipeg, Canada, sydd wedi datguddio'r dirgelwch. Anoga famau'r bechgyn sydd yn y lluoedd arfog i'w hymrwymo'n aelodau o gymdeithas a elwir "Society for the Propagation of the Faith." Pris yr ymrwymiad yw deugain doler. Gofyn yr Archesgob, "Pa ddiogelwch gwell y gellir ei gael i'r bechgyn yng nghanol peryglon rhyfel? Pe digwyddai i un ohonynt gael ei ladd, y mae ganddo sicrwydd am fynedfa ddidramgwydd at ei Greawdwr . . ."

Cwyna'r Archesgob fod cyn lleied wedi ateb ei gais, a gofyn i'r mamau am gynilo a gwadu rhai pleserau fel y galluogir hwy i gyfrannu un doler y mis hyd nes y telir y swm yn gyflawn. Nid rhaid talu'r deugain doler ar unwaith. Gellir talu'r swm am achub enaid yn rhannol. Y peth pwysig, medd yr Archesgob, yw sicrhau diogelwch y bechgyn cyn belled ag y gellir gwneud hynny—eu diogelwch yn amser ac yn nhragwyddoldeb.

Awgryma geiriau'r Archesgob rhyw ddau neu dri o gwestiynau.

1. A oes gan yr Eglwys Babaidd ryw ddewiniaeth sy'n abl i sicrhau diogelwch corfforol dyn yng nghanol y brwydro ?

2. A chaniatau fod ganddi'r ddewiniaeth yma, paham na allai ddefnyddio'i gallu yn ysbryd cariad yn rhad heb ofyn *yn gyntaf* am y deugain doler ?

3. Ymffrost yr Eglwys Babyddol yw unffurfiaeth ei dysgeidiaeth. Ai hyn yw ei dysgeidiaeth yng Nghymru ? Y mae o bwys i ni wybod hynny, am fod yr Undodiaid, fel yr enwadau eraill, yn cael eu trethu er mwyn cynnal y fath ddysgeidiaeth yn yr Ysgolion Pabyddol yng Nghymru.

Gwyddom yn awr beth yw'r pris mewn arian sychion am achub enaid, yn ôl syniad Archesgob Pabyddol Winnipeg. Gwir fod pris enaid dyn lawer iawn yn uwch na phris ei gorff. Clywsom eisoes mai pris ei gorff yw ychydig bach dros un doler. Dadansoddodd un o'r enw Dr. T. E. Lawson gorff dyn, a chafodd ynddo'r elfennau hyn.

Llond casgen ddeng alwn o ddwr.
Digon o wêr i wneud saith bar o sebon.
Digon o garbon i wneud naw mil o bwyntilau ysgrifennu.
Digon o phosphorus i wneud dwy fil a dau cant o bennau matsis.
Digon o haearn i wneud un hoelen bedair modfedd.
Digon o galch i wyngalchu cwb cywion.
Symiau bach o magnesium a sulphur.

Dywedir y gellid prynu'r nwyddau hyn i gyd cyn y rhyfel am 4/11.

* * * *

O ddifrif, gyfeillion, amhosibl credu fod *pab* a *gwyddonydd* wedi setlo'r cwestiwn beth ydyw gwerth dyn, yn gorff ac enaid. Daliwn i gredu fod y Sallwyr yn agosach i'r gwirionedd.

"Pan edrychwyf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd,
Y lloer a'r sêr a ordeiniaist,

Pa beth yw dyn i ti i'w gofio,
A mab dyn i ti ymweled ag ef ?

Canys gwnaethost ef ychydig is na Duw,
Ac a'i coronaist â gogoniant ac â harddwch."

Ac ategir geiriau'r henfardd gan eiriau'r Apostol a blannodd Gristnogaeth ar gyfandir Ewrop.

"Oni wyddoch chwi fod eich corff yn deml i'r Ysbryd Glan sydd ynoch, yr hwn yr ydych yn ei gael gan Dduw, ac nad ydych yn eiddoch eich hunain ? Canys er gwerth y prynwyd chwi. Gan hynny, gogoneddwch Dduw yn eich corff, ac yn eich ysbryd, y rhai sydd eiddo Duw."

Y mae stori am athro coleg yng nghwmni ei fyfyrwyr un dydd yn mynd heibio i siop ddybaco. Wrth ddrws y siop honno yr oedd *dummy*—dyn tal wedi ei wisgo yn null Highlander yr Alban. Ei bwrpas yno ydoedd hysbysebu rhyw Scotch blend o ddybaco. Beth bynnag fyddai'r tywydd, yr oedd ef yno bob amser yn sefyll yn yr unfan, heb wên ar ei wyneb na chilwg chwaith. Yr awr honno pan ddaeth yr athro a'i fyfyrwyr heibio, digwyddodd i fedawyn fwrw yn erbyn yr Highlander pren, a syrthiasant ill dau ar y palmant.

Meddai'r athro wrth ei fyfyrwyr, "Y mae'r dyn pren yn well dyn na'r meddwyn. Nid oes gan y dyn pren allu i feddwl na theimlo na gwybod. Yr oedd y gallu hwn ym meddiant y meddwyn, ond yn awr y mae wedi ei ddiorseddu."

Aethant yn eu blaenau, ond trôdd un o'r myfyrwyr i edrych tuag yn ôl. Gwelodd y meddwyn yn ymdrechu i godi ar ei draed, tra'r oedd y dyn pren yn gorwedd yn dawel ar y llawr. "Na," atebodd y myfyriwr, "Rhaid i'r dyn pren aros lle y cwympodd, ond fe all y meddwyn ei godi ei hun i'r lan." Daeth syndod i lygaid yr athro, a llefarodd yn dawel. "Ie. Dyna ogoniant bywyd dyn. Ei gywilydd ydyw syrthio. Ei ogoniant yw ei ymdrech i godi i'r lan."

David Jones, Talgarreg.

Ni allaf adael i farwolaeth y cyfaill hwn basio heb fynegi gair o werthfawrogiad o'i fywyd hardd a gwerthfawr mewn cymdeithas. Ni feddai ar hunanoldeb na chenfigen, ond yr oedd bob amser yn foneddigaidd a thawel ei arddull. Adnabum ef yn gynnar pan ddaeth yn was i fferm Rhydowen, a minnau'n ieuanc fel efe. Daeth ein cyfeillach yn un hapus yn lled fuan. Treuliasom lawer noson ddiddan gyda'n gilydd, a llawer noson hir yn y gaeaf deuai Dafydd i lawr i'r Felin. Er fod y nosau'n hir byr oeddynt i ni ein dau.

Yr oedd ynddo awydd a naturiaeth rwydd am ddysgu Sol-ffa, a thrwy ymdrech a hir barhad daeth Dafydd yn feistr i redeg y *Modulator*, a mawr oedd ei hyfrydwch. Fel hyn y treuliasom lawer gaeaf. Yr oedd yn fachgen o dymer dda, brawdol, a glân ei gymeriad, ac yn caru pethau gorau bywyd. Yr oedd yn selog yn y Llwyn fore, prynhawn, a hwyr, ac ai allan o'i ffordd yn aml i gael fy nghwmni i'r capel. Un o "fechgyn y Llwyn" ydoedd. Yno y cafodd ei addysg foreol ; yno yr urddwyd ef i'w selogrwydd crefyddol. Yr oedd yn Undodwr gwreiddiol, a gwir ganlynwr i Iesu Grist. Bu'n ffyddlon a didwyll i'w feistr ac i'w holl gydnabod.

O'r holl fechgyn a fu gennyf yn y côr yn y Llwyn ddeugain mlynedd yn ôl, yr oedd Dafydd gyda'r parotaf bob amser i gymryd

ei le. Nid oedd fel rhai yn ddireswm, ond yn ddistaw a dirodres. Yr oedd yn ffyddlon yn y Male Voice Party dan arweiniad y diweddar Mr. J. R. Thomas, Pontshân, ac yn y "Nigger Party," a'r dramau. Un yn llanw ei le hyd yr ymylon ydoedd.

Ym mhen blynyddoedd darfu i ni ein dau ymadael â'r gymdogaeth, ond ni bu hynny'n derfyn ar ein cyfeillgarwch. Ar lawer tro ar fy nheithiau cyfarfum â Dafydd tua ardaloedd Tonypandy, ac yn amlach tua Gorslas. Cyfarchem ein gilydd bob amser, a balchter ydoedd ennyd o sgwrs dros yr hen ddyddiau. "Ti a thithau"—felly yr oeddem i'n gilydd, ond erbyn hyn y mae'r gadwyn wedi ei thorri, a Dafydd yn ei fedd. Laweroedd o weithiau yr aethom yn ôl dros "Llên y Llwyn," achlysur a saif yn hanes y Llwyn am oesoedd i ddod, ac allan ohono cymraf a ganodd y bardd am un o enwogion gorau Dyffryn Clettwr, sef y diweddar D. Thomas, Siop Rhydowen. Felly hefyd am David Jones :

"Cymydog mwyn, caredig fu,—
Di-ri ei gymwynasau ;
I'w gofio fel colofnau lu
Y pery ei rinweddau ;
Dyn hynaws, tyner-galon iawn,
A'i fron yn llawn tynerwch,
Ei wedd bob amser oedd yn llawn
Sirioldeb a hawddgarwch."

Cwsg yn dawel, fy ffrind. Heddwch fo i'th lwch.

Bryn Teifi. J. C. Jones.

Arholiad yr Ysgol Sul, 1944.

Arholwyr—Mr. W. D. Jones, B.A., Llanwnen a Mr. J. M. James, C.M., Cellan.

ADRODDIAD YR ARHOLWYR.

Siomedig oedd nifer yr ymgeiswyr, er hynny cafwyd atebion rhagorol gan y mwyafrif. Yr oedd y plant lleiaf yn feistri ar eu gwaith, a chawsom bleser wrth ddarllen gwaith Safon III.

Safon III.

Enillwyr y Gwobrwyon—

(1) Sally Davies (Y Graig, Llandysul) ; (2) Dilys Eleanor Davies (Y Graig) ; (3) Catherine Anne Evans (Y Fadfa) ; (4) John Davies (Y Graig) ; (5) Alun Davies (Y Graig) ; (6) Hywel Jenkins (Capel-y-Bryn).

Ar Lafar—

Trebanos—Lilian Edwards, Marian Lewis, Derith Powell, Basil Hopkin.

SAFON II.

Enillwyr y Gwobrwyon—

(1) Eiluned Davies (Caeronnen) ; (2) Arthur Roderick (Cribyn) ; (3) Margaret Olwen Thomas (Y Graig) ; (4) Margaret Anne Rogers (Bwlchyfadfa) ; (5) Eira Gwen Evans (Y Graig) ; (6) James Jones (Llwynrhydowen).

Tystysgrifau—

Lewis Hefin Davies (Bwlch-y-Fadfa) ; Glanville Williams (Llwynrhydowen) ; Dan Davies (Llwynrhydowen) ; Eirwen Davies, Millie Roderick, Iwan Davies (Cribyn).

Ar Lafar—

Capel y Graig.—Twelly Davies, Derrick Davies, Ivor Thomas, Donald Davies, Leonard Davies, Elano Davies.

Llwynrhydowen.—Watkin Davies, Mair Williams, Edgar Jones, Roy Bebb.

Trebanos.—Mair Jones, Carwen Rees, Mary Williams, Gwynne Morgan, Byron Hopkins.

SAFON I.

Bwlch-y-Fadfa.—Harold Rogers, Caradog Evans, Derrick Williams, Betty Evans, Barbara Joan Warlow.

Brondeifi.—David John Ieuan Evans.

Capel-y-Bryn.—Anne Davies, June Murphy, Dewi Evans, Tom Evans.

Cribyn.—Iris Williams, Betty Howells, Cissie Evans, Nell Davies, Kenneth Rowlands, Myra Jones, Joan Rowlands.

Y Graig.—David Jones, Peter Davies.

Llwynrhydowen.—Tom Wynne Evans, Betty Jones, Marianne Dudley, Tom Jones, Elizabeth Hannah Dudley, George Davies, Tommy Jones, Mair Mayes, Wyndham Jones, Gwynfor Jones.

Maes Llafur yr Ysgol Sul, 1944—45.

SAFON I (i rai o dan 9 oed. *Holwyddoreg ar Grefydd*—Y rhannau, "Pechod," "Y Beibl," "Iesu Grist."

SAFON II (o 9 i 12 oed). Yr un maes ag i Safon I, ond disgwylir gwybodaeth lawnach.

SAFON III (o 12 oed i fyny). *Egwyddorion yr Undodiaid*—O "Y Beibl," tudalen 7, hyd y diwedd.

DYDDIAD YR ARHOLIAD—EBRILL 28, 1945.

Gohebiaethau.

(Nid yw'r Golygydd yn gyfrifol am olygiadau ei ohebwyr).

ANTHEM Y WERIN BOBL.

Olygydd Annwyl—

Fel "anthem y werin bobl" y disgrifir emyn Ebenezer Elliot sy'n mynd mor odidog ar y dôn "Commonwealth." Dyma'r pennill cyntaf:

When wilt Thou save the people ?
  O God of mercy, when ?
Not kings alone, but nations ?
  Not thrones and crowns, but men ?
Flowers of Thy heart, O God, are they :
Let them not pass like weeds away—
Their heritage a sunless day.
  God save the people !

Dywed un newyddiadurwr o'r Alban, a ysgrifennai o ddê Cymru: "So far as my experience goes, this hymn can rouse great popular audiences as nothing else can. It seems to go right down to the hearts of the people, and it can be sung very effectively."

Nid yn gymaint at yr emyn ond at yr awdur y dymunaf dynnu sylw. Adnabyddir Ebenezer Elliot fel "the Sheffield Corn Law Rhymer." Ychydig heddiw sy'n gwybod am ei gysylltiad a'r Undodiaid. Ganed ef yn Rotherham ar Fawrth 18, 1781, a chafodd ei addysg fore yn Hollis School, perthynol i'r Old Meeting House (yn awr Church of our Father). Mewn darn o'i farddoniaeth, Withered Wild Flowers, ceir darlun o'r Hen Dŷ Cwrdd—temple plain and unadorne'd—a disgrifir yr olygfa o fynwent y Capel. Datgan yn y dernyn hwn ei rwymedigaeth i'w hen ysgol-feistr, Joseph Ramsbottom, a gladdwyd ym mynwent yr Hen Dŷ Cwrdd. Dywedir ei fod yn gyfeillgar iawn â'r Parchedig Jacob Brettell (gweinidog y lle o 1816 hyd 1859). Yr oedd Brettell hefyd yn fardd o fri, ac arferai Elliot ofyn am farn a chyngor ei weinidog ar ei gynhyrchion. Wedi i Elliot symud i Sheffield arferai fynychu'r gwasanaethau yn Upper Chapel.

Gellionnen. J.J.

(Oes, y mae llawer o emynau o eiddo Undodiaid wedi tyfu'n boblogaidd iawn, ac yn cael eu canu ledled y byd. Diolchaf i'r gohebydd am dynnu sylw yma at un ohonynt. Ni cheir yr emyn na throsiad ohoni yn y *Perlau Moliant.* Colled ydyw hynny, ond gall trefnwyr ein rhaglenni canu ein helpu yn hyn. Y maent wedi helpu eisoes. Cyhoeddir yma emyn Ebenezer Elliot yn llawen. Eiddo'r diweddar Barchedig Keri Evans, M.A., yw'r trosiad.—GOLYGYDD).

DUW GADWO'R BOBOL.

Pa bryd y cedwi'r bobol ?
  Drugarog Dduw, pa bryd ?
Nid mawrion, ond y miloedd,
  Nid beilchion, ond y byd !
Blodau dy galon yw'r rhai hyn—
Gant hwy ddiflannu megis chwyn
Heb weled gwawr o obaith gwyn ?
  Duw gadwo'r bobol !

Gaiff trosedd fagu trosedd,
  A'r cryf gryfhau o hyd ?
A fynni Di i lafur
  Fyth gynnal gormes byd ?
Na ! medd dy fryniau ; na ! dy nef :
Fe gwyd yr haul a chydag ef
Dynoliaeth gwyd â llawen lef—
  Duw gadwo'r bobol.

Pa bryd y cedwi'r bobol ?
  Drugarog Dduw, pa bryd ?
Y bobol, Dad, y bobol !
  Nid beilchion, ond y byd ;
Duw gadwo'r bobol—plant i Ti
Ynt hwy, fel dy angylaidd lu :
Rhag llygredd, trais, anobaith du,
  Duw gadwo'r bobol.

DYFARNIAD O BWYS AR Y DDEDDF CLADDU.

YSGRIFENNA Wilfred J. Rowland, ysgrifennydd y Liberation Society, ar fater o ddiddordeb i Undodiaid ac i bawb na chydymffurfiant â'r Eglwys Wladol.

Yn 1880 pasiwyd drwy'r Senedd y Burial Laws Amendment Act. Drwyddi cafodd y rhai y mae ganddynt hawl i gael eu claddu mewn mynwentydd plwy neu yn rhannau cysegredig y claddfeydd cyhoeddus y rhyddid i gael eu claddu heb orfod defnyddio gwasanaeth claddu'r Eglwys Wladol. Trwy roi rhybudd mewn amser i Reithor neu Ficer y Plwy na ddefnyddir defod yr Eglwys Wladol, daeth yn bosibl ym mynwent y plwy beidio â chael gwasanaeth crefyddol o gwbl neu gael un sy'n unol â ffrind yr ymadawedig sy'n trefnu'r gladdedigaeth.

Gwrthwynebwyd y mesur hwn yn chwerw iawn am lawer o flynyddoedd cyn iddo gyrraedd Deddf Lyfr y wlad. Mewn rhai enghreifftiau yr oedd y gwrthwynebiad i'w ddarpariaethau mor llym hyd at geisio dirymu'r gyfraith pan ddaeth ychwanegu at dir y mynwentydd yn beth angenrheidiol. Mabwysiadwyd y cynllun o roi'r tir newydd yn nwylo ymddiriedolwyr a'r tryst yn cynnwys telerau fod defod yr Eglwys Wladol i'w defnyddio ym mhob claddedigaeth yn y tir.

Er mwyn cael barn bendant ar y peth gosododd y Liberation Society y ffeithiau ger bron yr Esgobion mewn llythyr cylch, a gofynnwyd iddynt am fod mor garedig â rhoi'r mater o flaen The Legal Board of the Church Assembly.

Danfonodd Archesgob Efrog yn awr i'r Liberation Society opiniwn y Legal Board. Dywedant :

> "It seems clear that any provision in a Deed granting land as an addition to a churchyard, purporting to restrict the parishioner's rights, whether such right be the common law right to interment so long as the ground is not 'closed,' or the statutory right to burial without the Church of England Burial Service, must be void."

Bydd y dyfarniad hwn yn foddhaus i Anghydffurfwyr yn gyffredinol a dylai roi pen ar yr anawsterau mewn llawer man o'r wlad.

Priodasau.

MAWRTH 3, yn Eglwys Llanwenog, SALLY LLOYD, ail ferch Mr. a Mrs. David Lloyd, Tyngrug-uchaf, Llanwenog, a EMRYS REES (yn awr yn yr R.A.F.), mab Mr. a Mrs. Rees, Goitre-isaf, Felindre, Llandysul. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Mr. Morgan, Ficer; Mr. Morris Davies, Ciwrad Ystrad Meurig a Mr. Jones, Felindre.

MAWRTH 10, yng Nghapel Cribyn, TOM JONES, Glydwer, Cwmpib, Llanwenog, a MARY LENA JONES, Penlanganol, Cribyn. Gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Evans, Cwmiago; J. Islan Jones ac A. J. Martin.

I'r ddeuddyn hyn hir ddyddiau,—a mwyniant
Ddymuna'n calonnau;
Boed i'w rhan eirian oriau,
A'u hwyl a'u hedd heb leihau. (ISLAN.)

Marwgofion.

MAWRTH 4, yn 50 mlwydd oed, ABEL EVANS OWEN, unig fab y diweddar Mr. a Mrs. Abel Owen, South End, Cwrtnewydd. Bu yn efrydydd yng Ngholeg y Brifysgol yn Aberystwyth, ac enillodd yno y radd o B.A. Ar ôl gorffen ei gwrs yno, bu yn gwasanaethu fel Athraw mewn rhai o ysgolion Cymru. Ymunodd â'r fyddin, ond nid oedd ei iechyd yn ddigon cryf i ddal caledwaith y milwr, a chafodd ei ryddhau. Claddwyd ym mynwent Rhyd-y-gwin, a gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams. Gadawodd dair chwaer a brawd yng nghyfraith a neiaint mewn galar dwys.

MAWRTH 13, ym Mhenybanc, ger Ffosyffin, Aberaeron, bu farw MARY WILLIAMS, gynt o Glynllwyd, Cribyn, yn 78 oed. Byr iawn a fu ei chystudd; yr oedd, i bob golwg, yn holliach dydd Sul, a bu farw'n gynnar fore Mawrth dilynol. Merch ydoedd i'r diweddar David a Mary Jones, Glynllwyd. Yno y'i ganed, yno y'i maged, ac yno y treuliodd ran fawr o'i hoes—hyd ei phriodas uwch ugain mlynedd yn ôl, pryd yr ymgartrefodd gyda'i phriod yn Aberaeron. Yno y treuliodd y gweddill o'i hoes, hyd yr haf diwethaf, pryd (oherwydd llesgedd corff) yr aeth i fyw at berthynasau agos iddi yn y lle a ennwyd; a chafodd ganddynt bob gofal a thynerwch. Perthynai i dylwyth a fu, un adeg yn lluosog yn y cylch Undodaidd yng Ngheredigion. Bu ei brawd â'i wyneb at y weinidogaeth—bu, dros amser byr, yn llanw lle gweinidog yn Nghwmbach. Yr oedd, hefyd, yn gyfnither i'r diweddar Barch. D. G. Rees, Gellionnen. Yr oedd yn Undodwraig oleuedig a gwresog, a fedrai roddi rheswm dros a gredai; ac o ddigwyddai i rywun ymosod ar ei henwad yn ei chlyw, teimlo'n edifarus a wnai iddo fod mor ryfygus. Teimlai ddiddordeb mawr ymhopeth perthynol i'w henwad; teimlai ddiddordeb eithriadol yn yr achos yng Nghribyn. Hyd ei symud i Aberaeron, bu'n rhyfeddol o ffyddlon ynglŷn â phob cangen o waith Eglwys Gristnogol—yr Addoliad, yr Ysgol Sul, a'r Ysgol Gân; ni adawai i'w lle fod yn wâg, onis rhwystrid gan achos na fedrai mo'i osgoi. Ac wedi ymadael ohoni o'r ardal, nid oerodd mo'i serch; bryd bynnag yr ymwelwn â hi, holi ei hynt a wnai; ac nis bodlonid heb iddi gael yr hanes yn llawn. Bu'n dderbynnydd o'r YMOFYNNYDD hyd y diwedd;

ac fe'i darllenai'n awchus, gan brofi ohoni a ddarllenai yn gysur a chymorth iddi. Praw o'i serch ato yw'r ffaith iddi roddi punt tuag at ei gynnal (gweler yr YMOFYNNYDD, rhifyn Chwefror). Treuliodd fywyd tawel, tangnefeddus, a choronodd ei phroffes grefyddol â chymeriad o safon uchel. Gan ei chyfoedion yn ardal Cribyn teimlir hiraeth o'i cholli. Dydd Gwener dilynol, dygpwyd ei gweddillion i orffwys yn ymyl eiddo ei theulu ym mynwent Capel-y-Groes, a daeth nifer luosog i'r capel fel arwydd o'u parch iddi. Gwasanaethwyd ym Mhenybanc gan y Parchn. D. Davies, ficer Aberaeron, a Lewis Williams, Rhydygwin, yn y Capel gan y Parchn. A. J. Martin, B.A.; D. Evans; Islan Jones, M.A. ac S. Evans Bowen. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mrs. Jenkins, Blaenwaun-ganol.

CLADDWYD WENDY, merch fechan Thomas a Lena Davies, 9, Cambrian Street, Llandysul, dydd Iau, Mawrth 29 ym mynwent Pisgah, Talgarreg, yn ddeu-fis oed. Gwasanaethwyd gan y Parch. Gwilym Evans yn y tŷ ac ar lan y bedd.

"Aeth diniweidrwydd at ei Dduw
Dros fyth i fyw'n Ei burdeb."

Nodion yr Eglwysi.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Islington, N.1., am 4.15 p.m. ar y Sul cyntaf o bob mis. Cawsom y pleser o glywed y Parch. J. Coram Davies, B.A. yn ein gwasanaeth ym mis Chwefror, a'r Parch. T. Oswald Williams, M.A., ym mis Mawrth. Yr oedd nifer mawr yn ein gwasanaeth ym mis Mawrth, a gobeithiwn y cawn weled cystal cynulleidfa ar Sul y Pasc, pryd y pregethir gan y Parch. E. R. Dennis. Fel y gwyddom, mae'r Hen Dy Cwrdd, Aberdar wedi bod yn neilltuol o garedig i ni. Yn ein cwrdd eglwys blynyddol ar ôl y gwasanaeth yn Chwefror dangosodd y Trysorydd i ni fod ein sefyllfa ariannol yn foddhaol ag ystyried mor galed y bu y flwyddyn 1944 i ni. Ail etholwyd y pwyllgor a phenderfynwyd gwneud yr un taliadau eleni ag a wnawd y llynedd, ond ein bod yn cynyddu ein tanysgrifiad i'r Gymdeithas Gymraeg i £1/1/0, ac ein bod yn gwneud rhodd o 10/6 i Drysorfa'r YMOFYNNYDD. Buom yn falch i glywed yn ystod y mis oddiwrth y Parch. J. Arthur Pearson a'r Parch. J. Carrara Davies, a deall fod y ddau ar eu gwellhad, er na fedrant ymweled a ni ar hyn o bryd. Os oes rhywun heb gael copi o'r Balance Sheet, gofynned i un o'r swyddogion. Trefn y dyfodol—Mai: Y Parch. J. Tyssul Davies, B.A.; Mehefin: Y Parch. J. Marles Thomas, M.A.; Gorffennaf: Y Parch. E. O. Jenkins; Awst: Y Parch. D. Jacob Dafis, B.A.; Medi: Y Parch. Aubrey J. Martin, B.A.; Hydref: Y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D.

UN DYDD AR GOLL.—Nid oedd gan Teitus, Ymerawdwr Rhufain, ddim dymuniad o uwch na gwneuthur daioni i'w ddeiliaid. Un prynhawn, wrth gofio nad oedd efe y diwrnod hwnnw ddim wedi cyflawni un weithred o wasanaeth i'w bobl, nac wedi rhoddi i neb un ffafr, llefodd allan wrth y rhai o amgylch iddo: "Fy nghyfeillion, yr wyf wedi colli diwrnod."

O'r *Athraw.*

DWY SACHAID O LAFUR.—Yn un o straeon y Dwyrain ceir hanes am ddyn a gymerth daith i wlad bell. Cyn cychwyn gofynnodd i ddau o'i gymdogion am ofalu am ddwy sachaid o'i lafur. Rhoddodd un i bob un. Dymunasant iddo siwrne lawen.

Ym mhen amser daeth y dyn yn ei ôl, ac aeth at yr agosaf o'i gymdogion i geisio'i lafur. "Af i'w hôl," meddai'r cymydog, a diflannodd i'r seler lle y gadawodd y sach. Ond yr oedd y lleithder yno wedi pydru'r llafur fel nad oedd mwyach o werth i ddyn nac anifail. Yn flin am ei golled, brysiodd perchen y llafur at ei gymydog arall, a dywedodd ei neges. Daeth gwên dros wyneb y cymydog, a dywedodd, "Dewch gyda mi, ac fe gewch ei weld." Arweiniodd ef gerfydd ei fraich dros garreg y drws, ac allan â hwy i un o'r caeau, lle yr oedd awel wresog yn tonni'r ŷd aeddfed. "Dyna ffrwyth y sachaid o lafur a adawsoch gyda mi," meddai.

"Ffrind ffyddlon," atebodd y dyn, "y mae fy niolch yn fawr iawn i chwi. Cadwasoch chwi eich addewid mewn ysbryd ac mewn gwirionedd, ond ni cheisiodd fy nghymydog arall fwy na chyflawni'r llythyren yn unig. Am hynny, pan ddaw'r cynhaeaf, rhoddwch i mi ddwy sachaid o lafur i gymryd lle y rhai a adewais, ac am y gweddill, cymrwch ef, a gwnewch fel y mynnoch ag ef."

YN Y RHWYD.

Ers tro 'roedd Gwen a mi
  Yn gryn gyfeillion ;
Ond ffrindiau pen o'em ni,
  Nid ffrindiau calon ;
Yr o'em fel chwaer a brawd
  Ymhob cwmpaniaeth,
Ac er 'mod innau'n dlawd,—
  'Doedd dim gwahaniaeth.

Ond un hwyr, wrth ddod o'r Plas,
  A gadael Gwenno,
Mi deimlais fel rhyw ias
  Wrth siglo dwylo ;
Tybed oedd gwasgiad llaw
  Gwenno'n dynnach
Nag arfer, beth ; heblaw,
  Bod yn hwy, hytrach ?

Drannoeth, mi welwn fun
  Fy serch yng Ngwenno ;
Ond wedyn, ai 'ngwaith fy hun
  Fu gwasg y dwylo ?
Dyfalu, casau fy mwyd
  Yr own, a phendroni ;
Sidanaidd oedd y rhwyd,—
  Ond 'roeddwn ynddi !

CLEDLYN.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, yng Ngwasg Gomer, Llandysul